

Cyngor Sir CEREDIGION County Council


Y Cynghorydd / Councillor Ellen ap Gwynn

Arweinydd y Cyngor /

Leader of the Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA

www.ceredigion.gov.uk



Dyddiad
Date

21/11/2017

Llinell uniongyrchol
Direct line

01545 572004

Fy nghyf
My ref

EaG/SAD

Ebost
Email

Ellen.apGwynn@ceredigion.llyw.cymru

Mark Drakeford AC,
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a
Llywodraeth Leol,
Llywodraeth Cymru,
Bae Caerdydd,
CAERDYDD,
CF99 1NA.

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet,

Ymateb i'r ymgynghoriad i'r setliad dros dro

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 10 Hydref 2017, isod ceir ymateb Cyngor Sir Ceredigion i'r ymgynghoriad ar setliad y gyllideb dros dro ar gyfer 2018-19.

Mae'r Cyngor yn wynebu pwysau cynyddol o ran costau, sy'n deillio o'r toriadau ariannol parhaus i wasanaethau cyhoeddus a wnaed gan lywodraethau Llundain a Chaerdydd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Fel un o'r awdurdodau mwy gwledig, mae Ceredigion wedi dioddef gostyngiadau sylweddol o -5% ar gyfer 2014/15, -4.5% ar gyfer 2015/16 a -3% ar gyfer 2016/17. Ynghyd â phwysau chwyddiant mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 25% yn ein cyllideb, sef £38 miliwn gyda'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn rhagweld toriadau pellach o hyd at £18m.

Mae pwysau ychwanegol hefyd o ganlyniad i'r gofynion deddfwriaethol newydd megis y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Iaith Gymraeg.

Rydym yn falch fod teneurwydd poblogaeth wedi cael ei ystyried, o'r diwedd, yn y fformiwla dosbarthu. Fodd bynnag, mae'r setliad eleni yn ostyngiad pellach o 0.3% yng nghyfanswm ein cyllid. Nid yw hyn yn ddigonol i sicrhau bod gwasanaethau statudol yn cael eu diogelu, gan fod y pwysau cynyddol o ran costau yr ydym yn ei wynebu dros 5%. Yn ogystal, rydym wedi cael gwybod bod angen i'r Cyngor gynllunio ar gyfer gostyngiad pellach o 1.5% yn y cyllid ar gyfer 2019-2020.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.

Prif Weithredwr / Chief Executive :
Cyfarwyddwyr Strategol / Strategic Directors :

Eifion Evans
Barry Rees Dysgu a Phartneriaethau / Learning and Partnerships
Sue Darnbrook Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw / Care, Protection and Lifestyle

Rydym yn siomedig iawn fod trosglwyddo'r grantiau gofal cymdeithasol, a oedd yn ychwanegol at arian y Grant Cynnal Refeniw yn ystod y flwyddyn gyfredol, bellach wedi'u cynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2018-19. Oherwydd y gostyngiad yn y Grant Cynnal Refeniw, mae hyn mewn gwirionedd yn ostyngiad pellach yn yr arian sydd ar gael i ddarparu gofal hanfodol i'r bobl hŷn yn ein cymunedau gwledig. Roedd hwn yn arian newydd a gyhoeddwyd o ganlyniad i bwysau a gydnabuwyd mewn cyllidebau Gofal Cymdeithasol. Gofynnwn pam fod yr arian ychwanegol angenrheidiol hwn wedi'i dynnu'n ôl? Mae'r pwysau hwn yn parhau ac mae Gofal Cymdeithasol yn faes gwasanaeth sydd o dan bwysau ariannol enfawr.

Tra bod y pwysau sydd ar y Gwasanaethau Iechyd yn cael ei gydnabod, pam nad yw'r pwysau dilynol ar Ofal Cymdeithasol yn cael ei gydnabod?


Gan gyfeirio at Ysgrifenyddion y Cabinet dros Addysg a datganiadau ynghylch Gofal Cymdeithasol fod arian ychwanegol yn cael ei ddyrannu yn y Grant Cynnal Refeniw, ni allwn weld bod yr arian hwn ar gael o fewn y setliad dros dro presennol. Rydym am dynnu eich sylw at y ffaith hefyd nad yw arian Llywodraeth Leol wedi'i neilltuo. Byddai unrhyw gynnydd mewn cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn yn golygu y byddai'n rhaid gwneud toriadau i wasanaethau statudol eraill tua £2.5m.

Mae'r gostyngiadau sylweddol a'r newidiadau a wnaed i'r Grant Cynnal Refeniw wedi gadael diffyg sydd angen fynd i'r afael ag ef ac y mae hyn yn cymryd amser i'w ystyried a'i weithredu. Mae angen cyfnod hwy, i gynllunio ar gyfer gweithredu'r newidiadau sylweddol sydd eu hangen, nag y mae cyfnod gosod y gyllideb yn ei ganiatáu.

Er ei bod yn ddefnyddiol nodi bod yr arian cyfalaf cyffredinol i'w gynnal dros y tair blynedd nesaf, mae hyn mewn termau real, wrth gwrs, yn doriad ac mae'n dod ar ôl cyfnod hir a pharhaus o ddyraniadau gwastad a ddilynodd dair blynedd o doriadau sy'n gyfystyr â 36%. Mae'r Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar dderbyniadau cyfalaf a benthyca darbodus o fewn ei fframwaith polisi a lefelau fforddiadwyedd.

Gofynnwn i'r adolygiad o'r setliad dros dro ystyried y pwyntiau a wnaed uchod.

Yr eiddoch yn gywir,



Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn
Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Y Cyngorydd / Councillor Ellen ap Gwynn

Arweinydd y Cyngor /

Leader of the Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA

www.ceredigion.gov.uk



Dyddiad
Date

21/11/2017

Llinell uniongyrchol
Direct line

01545 572004

Fy nghyf
My ref

EaG/SAD

Ebost
Email

Ellen.apGwynn@ceredigion.llyw.cymru

Mark Drakeford AM,
Cabinet Secretary for Finance and
Local Government,
Welsh Government,
Cardiff Bay,
CARDIFF,
CF99 1NA.

Dear Cabinet Secretary,

Consultation response to the provisional settlement

Further to your letter dated the 10th October, 2017 please find below Ceredigion County Council's response to the consultation on the provisional budget settlement for 2018-19.

The Council is facing increasing cost pressures, which are a result of continual public service funding cuts placed on Councils by both London and Cardiff governments over the past 5 years. As one of the more rural authorities, Ceredigion has suffered significant reductions of -5% for 2014/15, -4.5% for 2015/16 and - 3% for 2016/17. Together with inflationary pressures this has resulted in a 25% reduction in our budget a total of £38million with the MTFS forecasting further cuts of up to £18m.

There are also extra pressures as a result of the new legislative requirements such as the Social Services and Wellbeing Act, the Future Generations and Wellbeing Act and the Welsh Language Act.

We are pleased that at long last, sparsity issues have been recognised in the distribution formula. However, this year's settlement sees a further reduction of 0.3% in our total funding. This is insufficient to ensure that statutory services are protected as the increased cost pressures being faced are over 5%. In addition we are informed that the Council needs to plan for a further 1.5% reduction of funding for 2019-2020.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.

Prif Weithredwr / Chief Executive :
Cyfarwyddwyr Strategol / Strategic Directors :

Eifion Evans

Barry Rees Dysgu a Phartneriaethau / Learning and Partnerships

Sue Darnbrook Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw / Care, Protection and Lifestyle

We are very disappointed that the transfer of the social care grants, that were in addition to RSG funding during this current year, have now been included in the RSG for 2018-19. Due to the reduction in RSG, this is in fact a further reduction in monies available to provide essential care for older people in our rural communities. This was new money announced as a result of pressures recognised in Social Care budgets. We would ask why this very necessary extra funding has been withdrawn? These pressures still remain and Social Care is a service area that is under enormous financial strain.

While pressures on the Health Services are recognised, why are the consequent pressures on Social Care not been recognised?


With reference to the Cabinet Secretaries for Education and Social Care statements that additional monies are allocated within the RSG, we cannot see that this funding is available within the present provisional settlement. We would also draw your attention to the fact that Local Government funding is not hypothecated. Any uplift in funding for these services would mean cuts would have to be made to other statutory services in the region of £2.5m.

Significant reductions and changes made to the Revenue Support Grant have left a shortfall to be addressed which takes time to consider and implement. The lead in time for implementing the significant changes required, need a longer period to plan for than the budget setting period allows.

Whilst it is useful to note that the general capital funding is to be maintained over the next three years, this is of course a cut in real terms and comes after a long and sustained period of flat allocations that followed three years of cuts amounting to 36%. The Council is maximising capital receipts and prudential borrowing within its policy framework and affordability levels.

We ask that the review of the provisional settlement takes account of the points made above.

Yours sincerely,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Ellen ap Gwynn', with a horizontal line drawn underneath it.

Y Cyngorydd / Councillor Ellen ap Gwynn
Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion
Leader of Ceredigion County Council